

Enw'r corff: Colegau Cymru

Elusen a chwmni cyfyngedig trwy warant yw ColegauCymru sy'n codi proffil addysg bellach gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol er mwyn gwella cyfleoedd addysgol yng Nghymru. Caiff ei arwain gan ei aelodau, sef pob un o'r 14 o golegau/sefydliadau addysg bellach Cymru.

Ers 25 Ionawr 2017, mae ColegauCymru wedi gweithredu o dan y drefn safonau, ac rydym yn croesawu statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. At ddiben yr ymateb yma, byddwn yn cyflwyno barn ColegauCymru, ac nid barn ein haelodau, gan sôn am ein profiadau ni fel corff sydd eisoes yn gweithredu o dan y drefn safonau iaith Gymraeg.

Her ein haelodau yw datblygu gweithlu sydd â sgiliau perthnasol i'r gwaith, sy'n cynnwys darparu pobl gyda sgiliau dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) perthnasol at fyw mewn gwlad ddwyieithog. Mae ein haelodau yn rhan o Rif 6 o'r rheoliadau, ac mi fydden nhw hefyd yn gweithredu'r drefn safonau maes o law.

Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.

Roedd cynllun iaith gyda ColegauCymru ers Hydref 2014 ac rydym wedi gweithio i adeiladu a gwella'r gwasanaeth dwyieithog ers hynny. O ganlyniad i ddatblygiadau deddfwriaethol o ran yr iaith, sef Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, rydym bellach ers 25 Ionawr 2017 yn gweithredu o dan y drefn safonau.

Elusen a chwmni gyda deg staff craidd yw ColegauCymru gyda 50% yn medru'r Gymraeg. Rydym yn gyfoethog yn ieithyddol felly, ond mae unrhyw ddatblygiadau sy'n rhoi mwy o ofynion ar gorff yn sicr yn cymryd amser i'w dderbyn.

Mae un aelod o staff yn arwain ar y Gymraeg, ond mae'n rhan o swydd fwy eang ac nid yn benodol ar werthuso'r safonau a chydymffurfiaeth.

Mae cyfathrebu yn ysgrifenedig a chyngor ar lafar rhwng y Comisiynydd a ColegauCymru wedi bod yn dda ac roeddwn yn glir o ran ein cyfrifoldebau o'r cychwyn.

Mae'r broses o osod y safonau hefyd wedi bod yn eglur ac mae digon o gyfleoedd i ymgysylltu gyda'r Comisiynydd wedi bod.

Mae gweithredu unrhyw newid sydd ddim yn dod a budd ariannol neu sy'n ychwanegol i amcanion strategol unrhyw gorff yn gofyn am ewyllys da ac ymrwymiad strategol ac arweinyddiaeth gadarn.

Mae lle i wella ieithwedd y rheoliadau, er mwyn sicrhau fod nhw'n glir ac yn eglur i'r defnyddiwr. Bydde cael enghreifftiau o arfer da wrth osod rhai o'r rheoliadau wedi bod yn ddefnyddiol dros ben. Yn aml roedd angen cwestiynu beth mae hyn yn golygu. Wrth gwrs gan eu bod yn rheoliadau newydd, roedd y Comisiynydd hefyd yn dysgu wrth weithredu.

Wrth fynd drwy'r broses roedd gwrthwynebiad yn fewnol yn y sefydliad o ran manteision symud o un drefn i'r llall, ac a oedd hyn yn mynd a'r Gymraeg a chydaddoldeb rhy bell. Gan ystyried yr ymateb yma, bydd cael enghreifftiau o arfer da wedi bod yn adnodd defnyddiol.

Mae Colegau Cymru yn cytuno gyda bwriad y datblygiad deddfwriaethol o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud. Ond rhaid cofio mae lleiafrif yw'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac felly mae angen ystyried y ffordd o integreiddio a chyfathrebu neges bositif am y datblygiad gyda rheini sydd ddim yn siarad Cymraeg. Enwedig gan fod cost ychwanegol o weithredu'r safonau ynghlwm.

Mae'r gwaith o gynllunio enwedig o fewn maes adnoddau dynol a chreu polisi yn ddatblygiadau lled newydd ac felly mae hyn wedi cymryd lot o egni ac amser i hyrwyddo'r manteision. Mae mewnosod newid mewn unrhyw gorff yn cymryd amser ac yn her yn ei hun.

Ar ôl derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, roedd chwe mis i roi trefn ar ein gwaith. Llwyddon ni wneud hyn, ond yn sicr bydd cael mwy o amser wedi bod yn ddefnyddiol.

Roedd cymorth gan y Comisiynydd yn werthfawr ond sefydlwyd Grŵp Deddf gan sefydliadau Rhan 1 ac roedd bod yn rhan o'r Grŵp yma yn allweddol i'n cyflawniad llwyddiannus.

Roedd dysgu gan Grŵp 1, a mabwysiadu eu templedi a gweithdrefnau oedd eisoes ar waith yn amhrisiadwy.

Er ein bod wedi gweithredu cynllun iaith ers 2014, roedd mynd drwy'r broses o weithredu'r safonau yn gyfle i ni fel sefydliad adnabod bylchau a gwella'n gweithrediad a'n gwasanaeth.

Mae rhai safonau yn heriol ac rydym wedi herio dwy safon o ran cynnal cyfarfodydd ac yn aros i glywed am yr heriau yma.

Mae angen cynghori cyrff drwy'r broses, enwedig rhai sy'n newydd i ddwyieithrwydd. Mae peidio gelyniaethu ar y broses o weithredu'r safonau yn hanfodol i lwyddiant yr iaith yn y dyfodol.

Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r balans yn gywir?

Rhagorol yw gweithrediad y Comisiynydd fel rheoleiddiwr. Mae pwyslais y pum mlynedd diwethaf ers sefydlu'r Comisiynydd wedi bod ar y gwaith yma sy'n ddealladwy, gan mae rôl newydd oedd hon.

Er nad yw Colegau Cymru wedi profi'r weithdrefn cwyno ar waith, mae'r broses o ddatrys camgymeriadau bach ar y cyfan i weld yn hirfaith ac yn cymryd gormod o amser i'w ddatrys. Mae prosesau hir a chostus yn ffordd arall o droi'r cyhoedd a sefydliadau yn erbyn yr iaith.

Anodd iawn yw bod yn heddlu iaith ar yr un pryd a hyrwyddo iaith. Un peth sydd wedi bod yn amlwg yw bod y Comisiynydd wedi wrth reswm osgoi cyfeirio at arfer da dros y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, wrth i'r Comisiynydd teimlo'n fwy hyderus a chyffyrddus, mae'r corff wedi dechrau cyfeirio at arfer da a bellach yn gofyn am enghreifftiau iddynt gyfeirio atynt. Mae hyn yn gam da ymlaen, gan fod pawb am efelychu a mabwysiadau'r ffordd gorau o weithredu. Mae hyn hefyd yn cefnogi cysondeb y gwasanaeth i'r defnyddiwr, sef un o brif amcanion y ddeddfwriaeth yn y lle cyntaf.

O ran hybu a hyrwyddo'r iaith, mae'n bosib i'r Comisiynydd wneud hyn os ydynt yn sefydlu is-frand ac yn cael arian sylweddol i allu cynnal ymgyrchoedd marchnata i'w gefnogi.

Er bod ymwybyddiaeth yn y sefydliadau sy'n disgyn o dan y drefn safonau yn uchel, isel yw ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ac yr hawl am wasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd gydweithio ar ymgyrch/oedd cenedlaethol tebyg i'r un ar 'rhoddi organau' neu 'talw am fapiau plastig' i godi ymwybyddiaeth ac ennyn y gefnogaeth o'r bobl yng Nghymru.

Beth sy'n glir yw bod pob sefydliad o dan y drefn safonau â chyfrifoldeb o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r gwasanaethau.

Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Hoffwn glywed yn arbennig am y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.

Yn anffodus mae dryswch eisoes yn bodoli, ers diddymu Bwrdd yr Iaith mae'r Gymraeg wedi'u wanedu, gyda chyfrifoldeb diogelu, hyrwyddo a thyfiant iaith wedi rhannu i ormod o gyrff. Bellach does dim un man i gael y gwasanaeth cyflawn. Does dim ots pwy sy'n gyfrifol, eglurder ac esmwythder proses sydd angen.

Y bobl orau i hyrwyddo'r iaith yw bobl ifanc ein colegau AB ar draws Cymru. Gyda dau rhan o dri o bobl ifanc oed 16-19 yn astudio mewn coleg, maen nhw'n allweddol i'r ymgyrch o normaleiddio iaith ac yn gynulleidfa sydd ar fin dechrau defnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn Gymraeg.

Pwy bynnag sy'n hyrwyddo, un peth sy'n glir yw bod angen cynllun cydweithredol a strategol gyda chyfrifoldeb ar y cyd.

Mae angen symud i ffwrdd o'r ymgyrchoedd ffurfiol a sych, roedd ymgyrchoedd 'Iaith Gwaith', 'Soak it Up' a 'Twf' yn lot fwy deniadol na'r hyn sydd wedi bod yn ddiweddar.

Mae gwir gyfle i wneud gwahaniaeth. Mae angen ymgysylltu gyda phobl ifanc i weld beth maen nhw eisiau, a hyd yn oed cynnal cystadleuaeth i ddod fyny gyda syniadau arloesol, ffres, newydd ac effeithiol.

Beth sydd yn allweddol i'w fod pawb yn teimlo balchder dros gael dwy iaith yng Nghymru a bod ni'n cefnogi pobl Cymru i ddeall y datblygiadau. Mae'r deddfu wedi

digwydd sy'n dda ond nawr mae angen ennyn diddordeb y cyhoedd er mwyn sicrhau cynaladwyedd a ffyniant i'r iaith Gymraeg.

Enw'r corff: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth mewn perthynas â pharatoi ar gyfer Bil newydd ar gyfer yr Iaith Gymraeg.

Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Yn arbennig y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff.

Mae CCAUC wedi ymrwymo'n llwyr i bolisi Llywodraeth Cymru o hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus a chynyddu'n sylweddol nifer y rhai sydd yn cydnabod eu hunain fel siaradwyr Gymraeg. Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn parhau i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar sail cydraddoldeb wrth gynnal ein busnes cyhoeddus yng Nghymru. Hefyd rydym yn cydnabod ac yn cefnogi y rôl bwysig sydd gan ddarparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru mewn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog. Yn 2010, datblygodd a chyhoeddodd CCAUC ei Gynllun Iaith Gymraeg diweddaraf sy'n datgan: sut rydym yn darparu gwasanaethau Gymraeg i'r cyhoedd a'r sector AU yng Nghymru; ein polisiau i gefnogi addysg cyfrwng Gymraeg a dwyieithog mewn addysg uwch yng Nghymru; a'n trefniadau ar gyfer gweithredu a monitro'r Cynllun. Rydym yn cyhoeddi adroddiad cydymffurfio blynyddol ar ein perfformiad yn erbyn y Cynllun.

Ar hyn o bryd rydym yn paratoi i weithredu Safonau newydd y Gymraeg, 2017, sy'n berthnasol i CCAUC. Mae'r ddeddfwriaeth yn drwyadl a heriol, ac yn cynnwys oddeutu 180 o Safonau, gyda mwy na 150 ohonynt yn cael eu datgan ar hyn o bryd yn berthnasol i CCAUC. Fel y nodir uchod, mae gennym eisoes drefniadau sydd wedi'u datblygu'n dda mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn gweithio i wella'r meysydd ble mae angen i ni weithredu'n fwy cyson yn ddwyieithog. Er hynny, mae gennym bryderon y bydd rhai o'r Safonau newydd yn anodd i ni eu cyrraedd, naill ai am nad ydynt wir yn berthnasol i'n gweithgareddau penodol, neu oherwydd y byddant yn rhy feichus i sefydliad cymharol fach fel CCAUC. Cafodd y pryderon hyn eu nodi yn ein hymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol ar y safonau, ac mae copi o'r ymateb i'w weld ar wefan y Comisiynydd.

Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydy'r cydbwysedd yn gywir?

Mae proses Swyddfa'r Comisiynydd wrth ddatblygu'r Safonau wedi bod yn drwyadl iawn. Mae'n cynnwys cyfleoedd i sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y Safonau drafft ac ar eu Hysbysiad Cydymffurfio drafft. Mae cyfleoedd o'r fath yn hanfodol ac i'w croesawu, ond mae nifer a chymhlethdod y Safonau'n golygu bod y broses o ymateb yn eithaf llafurus ac yn cymryd llawer iawn o amser.

Mae'r broses hefyd yn cynnwys rhai cyfleoedd am drafod uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd ac mae hyn yn cael ei groesawu'n fawr. Roedd y Sesiwn Briffio diweddar a drefnwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys CCAUC, o gymorth mawr i esbonio elfennau ymarferol y broses. Bydd aelodau o staff y Comisiynydd yn cael cyfarfod unigol yn awr gyda phob un o'r sefydliadau sy'n cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth newydd. Mae hwn yn gam pwysig iawn i ni oherwydd bydd

yn galluogi i ni godi ein cwestiynau a phryderon am y Safonau sy'n peri anawsterau penodol i ni, neu nad ydym yn credu eu bod yn berthnasol i ni.

Gobeithio y bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn ymateb i'r pryderon hyn ac yn fodlon bod yn hyblyg a chymesur.

Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am nwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, wrth gadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrff yn gweithredu yn yr un maes.

Rydych yn nodi bod rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddiol a chyfrifoldebau am hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith, ac rydych yn gofyn a yw'r cydbwysedd yn briodol.

Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn bod rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i wneud yn siŵr bod cyrff y sector cyhoeddus yn ymwneud yn briodol â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â defnyddio a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Er hynny, rydym yn credu bod y cydbwysedd wedi symud yn rhy bell i ryw raddau, i gyfeiriad rheoleiddio cyrff cyhoeddus.

Mae dull o weithredu sy'n seiliedig ar reoleiddio o angenrheidrwydd yn cynnwys yr angen i gydymffurfio a gorfodi hynny, ac mae risg y bydd rhai sefydliadau sy'n gorfod dilyn y drefn yn edrych ar hyn fel rhywbeth negyddol. Byddem yn croesawu dull o weithredu lle mae'r corff sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i annog a galluogi defnydd effeithiol o'r iaith ganddynt, yn hytrach na dibynnu'n drwm ar reoleiddio.

Gellid gwneud hyn, er enghraifft, drwy helpu sefydliadau i adolygu eu harferion presennol a rhoi cyngor ac arweiniad ar sut gellid gwella'r rhain, gan ddefnyddio esiamplau o arfer gorau o bob cwr o Gymru. Fel sefydliad bach, gyda llai na 45 aelodau o staff, rydym yn teimlo y byddai'r dull hwn o weithredu o gymorth mawr, gan fod y cyfle i ni gael arbenigedd mewnol yn y maes hwn yn eithaf cyfyngedig.

Hefyd mae angen hyrwyddo a hwyluso'r iaith yng nghymdeithas Cymru yn ehangach, y tu hwnt i sefydliadau'r sector cyhoeddus eu hunain. Yn ein profiad ni, mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, yn ymarferol, yn isel. Mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o fesurau meithrin hyder, gweithgareddau hyrwyddo a chysiau i annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, a chydabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg. Rydym yn awgrymu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i'r mathau hyn o weithgareddau yn y dyfodol, yn hytrach na datblygu rhagor o reoliadau.

Enw'r corff: Comisiynydd Heddlu Dyfed Powys

Diolch am y gwahoddiad i roi ein hadborth am ein profiad o Safonau'r Gymraeg fel paratoad at Fesur yr Iaith Gymraeg. Fel y gwyddoch, cefais hysbysiad cydymffurfio ar 30 Medi 2016, gyda dyddiad gorchymyn o 30 Mawrth 2017 ac felly ni fedraf ond cyflwyno sylwadau am y paratoadau a wnaed gan fy sefydliad hyd at ddyddiad y gorchymyn.

Cefnogaf yr Iaith Gymraeg ac unrhyw fodd i wella'r defnydd ohoni drwy Gymru, i'r eithaf. I'r diben hwn 'r wyf yn sicr bod y broses o sicrhau bod gofyn i wasanaethau i gydymffurfio'n llwyr â'r gofynion a amlinellir gan Safonau'r Gymraeg a sicrhau cydraddoldeb wrth ddarparu wedi bod, yn gyffredinol, o fudd i'r cyhoedd.

Er hyn, mae rhai o'r safonau yn heriol iawn a gellid gweithio ar eu symleiddio. Credaf y byddai hynny yn ei dro'n cynyddu cydymffurfiaeth o fewn sefydliadau. Ar ben hyn, mae'r Safonau yn eu ffurf bresennol yn fanwl dros ben ac angen rhywfaint o gyfieithu ar gyfer aelodau o staff sydd yn cyflwyno gwasanaethau rheng flaen.

Un maes sydd yn peri pryder mawr i fy sefydliad i yw gweithredu'r gwasanaethau a gyflwynir ar ein rhan (gwasanaethau wedi'u comisiynu). Gan fod nifer o'r gwasanaethau y byddaf yn eu comisiynu yn arbenigol iawn o ran natur, yn perthyn i faes gweinyddu cyfiawnder neu ddarparu cefnogaeth i ddiodefwyr troseddau, a chan fod y pwll o gyflawnwyr sydd ar gael eisoes yn eithaf cyfyng, y mae hi'n bosib y byddai mynnu iddynt fedru rhoi gwasanaeth llwyr ddwyieithog yn lleihau'r pwll yn fwy fyth yn ogystal ag effeithio'n negyddol ar broses dendro gystadleuol a'n gallu i ddarparu rhai o'r gwasanaethau unigryw hyn.

I gloi, yn fy marn i, rhaid bod y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai'r pwyslais felly fod mwy ar hyrwyddo yn hytrach na rheoleiddio ymdrechion sefydliadau ac unigolion.

Enw'r corff: Uned Ymchwil Iaith, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

Tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Athro Diarmait Mac Giolla Chriost, Dr Patrick Carlin a'r Athro Colin H Williams, Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio (LPPRU), Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar Baratoi ar gyfer Bil y Gymraeg.

Mae'r dystiolaeth yma wedi'i hatodi at yr e-bost sy'n cynnwys yr wybodaeth a ofynnwyd amdani.